# Degarelix ar gyfer trin canser y prostad datblygedig sy'n ddibynnol ar hormonau

Awst 2016

## Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Argymhellir degarelix (firmagon) fel triniaeth bosibl ar gyfer canser y prostad datblygedig sy'n ddibynnol ar hormonau mewn oedolion y mae eu hafiechyd wedi lledaenu i'w hasgwrn cefn.

**Beth mae hyn yn ei olygu i mi?**

Os oes gennych ganser y prostad datblygedig sy'n ddibynnol ar hormonau sydd wedi lledaenu i'ch asgwrn cefn, a bod eich meddyg o'r farn mai degarelix yw'r driniaeth gywir, dylech allu ei chael ar y GIG.

Dylai degarelix fod ar gael ar y GIG o fewn tri mis.

Os nad ydych yn gymwys i gael y driniaeth a ddisgrifir uchod, dylech allu parhau i gymryd degarlix nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ei bod yn iawn i chi roi'r gorau i'w gymryd.

**Y cyflwr a'r driniaeth**

Pan fydd canser y brostad wedi lledaenu i ran arall o'r corff, fe'i gelwir yn ganser datblygedig neu fetastatig y brostad.

Gall yr hormon testosteron wneud i gelloedd canser dyfu yn gyflymach, felly gellir defnyddio cyffuriau i wneud i'r corff gynhyrchu llai o destosteron, gan arafu twf y celloedd canser.

Mae degarelix yn gweithio drwy leihau faint o destosteron sy'n cael ei ryddhau gan y corff.

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- Cymorth Canser Macmillan, 0808 808 0000
- Gwybodaeth i Gleifion Ymchwil Canser y DU (CancerHelp UK yn flaenorol), 0808 800 4040
- Prostate Cancer UK, 0800 074 8383
- Tackle Prostate Cancer, 0800 035 5302
- PCaSO Sefydliad Cymorth Canser y Brostad, 0800 035 5302

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-2110-2